| | |
|---|---|
| **Addysg a gofal plant: coronafeirws**<br><br>**Canllawiau**<br><br>**22 Mawrth 2020**<br><br>Rydym yn ymwybodol bod y sefyllfa ar hyn o bryd yn newid o hyd, bod canllawiau'n cael eu diweddaru'n gyson a bod angen rhannu gwybodaeth gywir yn sydyn.<br><br>Er mwyn sicrhau cysondeb yn y neges ar y canllawiau i ysgolion, lleoliadau gofal plant a rhieni/gofalwyr, rydym wedi cynhyrchu'r negeseuon a'r wybodaeth allweddol ganlynol.  I gadarnhau, cymeradwywyd y canllawiau hyn gan SOLACE a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru.<br><br>Y neges allweddol gyffredinol yw:<br><br>• Dylai pawb aros gartref yn gyffredinol, atal y firws rhag lledu a diogelu'r GIG<br><br>Fodd bynnag, rydym yn ceisio cadw'r cydbwysedd rhwng aros gartref a sicrhau diogelwch y plentyn ac unrhyw un mewn grŵp bregus:<br><br>• Dylai plant gael eu cadw gartref i atal y firws rhag lledu ac amddiffyn ein GIG<br>• Ond mae angen gweithwyr hanfodol arnom i wneud eu gwaith o hyd ac mae angen inni amddiffyn plant sy'n fregus<br>• Dylai gweithwyr allweddol gadw eu plant gartef, ond ni allant eu gadael ar eu pennau eu hunain os barnant na fyddent yn ddiogel ac na allant eu gadael gyda rhywun sy'n fregus | **Education and childcare: coronavirus**<br><br>**Guidance**<br><br>**22 March 2020**<br><br>We realise that the situation at present is ever changing, guidance is constantly being updating and that information needs to be shared quickly and accurately.<br><br>In order to ensure consistency of message on the guidance for schools, childcare settings, and parents/carers, we have produced the following key messages and information.  To confirm this guidance has been endorsed by Solace and The Association of Directors of Education in Wales.<br><br>The overall key message is:<br><br>• Everyone should stay home generally, stop the spread of the virus and protect the NHS<br><br>However, we're trying to balance staying home with ensuring the safety of both the child and anyone in a vulnerable group:<br><br>• Children should be kept home to stop the spread of the virus and protect the NHS<br>• But we still need critical workers to do their jobs and we need to protect vulnerable children<br>• Critical workers should keep their children home… but they can't leave them alone if they judge that would not be safe and they can't leave them with someone in a vulnerable group<br>• If they have no safe alternative, they can go to a school / childcare setting |

| | |
|---|---|
| • Os nad oes ganddynt ddewis arall, diogel, gallant fynd i ysgol/lleoliad gofal plant<br><br>Er mwyn ein helpu i ledaenu'r negeseuon hyn, byddem yn ddiolchgar am eich cymorth o ran:<br><br>• Rhannu'r graffeg 'aros adref, amddiffyn ein GIG, achub bywydau' ar eich sianeli. Mae'r rhain ar gael i'w lawrlwytho drwy Dropbox: https://bit.ly/399ulDX WeTransfer: https://bit.ly/396I3rf (yn cynnwys animeiddiad dwyieithog; graffeg dwyieithog; neges fideo gan y Gweinidog Addysg; a bydd yn cynnwys fideo'r Gweinidog Addysg ag is-deitlau yn ddiweddarach heddiw)<br><br>• Cyfeirio pobl at y canllaw yma https://llyw.cymru/5-peth-mae-angen-i-chi-eu-gwybod-cyn-anfon-eich-plant-ir-ysgol-neu-ofal-plant<br><br>• Diweddarwch eich gwefan gyda'r wybodaeth hwn<br><br>Diolch am eich cefnogaeth barhaus. | To help us disseminate these messages we would be grateful for your assistance in:<br><br>• Sharing these 'Stay at Home, Protect our NHS, Stay Safe' graphics via all your channels. These are available to download via Dropbox: https://bit.ly/399ulDX WeTransfer: https://bit.ly/396I3rf (included bilingual animated video; bilingual graphics; * Video message from MfE; and will include a subtitled video from MfE later today)<br><br>• Directing people to the following guidance https://gov.wales/5-things-you-need-know-sending-your-children-school-or-childcare<br><br>• Update your website with this information<br><br>Thank you for your continued support. |